

## **Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)**

Ysbyty Cyffredinol Bronglais /  
Gwasanaethau Mamolaeth – Ward  
Gwenllian a'r Uned a Arweinir gan  
Fydwragedd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 21, 22 a 23 Hydref  
2019

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ionawr 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	6
	Crynodeb o'n harolygiad .....	7
2.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	26
3.	Beth nesaf? .....	31
4.	Sut rydym yn arolygu ysbytai .....	32
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	33
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	34
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	36

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Cyffredinol Bronglais, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 21, 22 a 23 Hydref 2019. Mae'r arolygiad hwn yn rhan o adolygiad cenedlaethol AGIC o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru.<sup>1</sup>

Ymwelwyd â'r wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Gwenllian
- Uned a Arweinir gan Fydwragedd.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un obstetrydd ymgynghorol a dwy fydwraig) ac un adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

---

<sup>1</sup> <https://agic.org.uk/adolygiad-cenedlaethol-o-wasanaethau-mamolaeth>

# Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu gofal i'r cleifion mewn ffordd barchus ac urddasol.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai gwelliannau yr oedd angen eu gwneud er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol bob amser.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y menywod a'u teuluoedd fod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr uned yn ardderchog
- Gwelsom y staff yn trin y cleifion â chynhesrwydd, parch a chwarteisi bob amser, ac roedd y gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd urddasol
- Roedd y cleifion yn cael pecyn gwybodaeth adeg eu rhyddhau o'r ysbyty a oedd yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol
- Cronfa ddata i gefnogi'r gwaith o ddiogelu menywod a babanod a allai fod yn wynebu risg
- Roedd y tîm o fydwragedd yn gydlynol ac roedd ganddynt gydberthynas dda â'r uwch-reolwyr.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Archwilio offer brys
- Driliau herwydio babanod rheolaidd
- Diweddariadau i rai o'r polisïau a'r canllawiau meddygol clinigol a bydwreigiaeth
- Ansawdd y cofnodion cleifion a gedwir.

## 2. Yr hyn a nodwyd gennym

### Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Bronglais wedi'i leoli yn Aberystwyth, ac mae'n rhan o'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y bwrdd iechyd). Mae'r bwrdd iechyd yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth o tua 384,000 i gyd, a hynny ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n darparu gwasanaethau aciwt, cymunedol, iechyd meddwl ac anabledau dysgu. Mae ardal y bwrdd iechyd yn cwmpasu chwarter trefas Cymru a hon yw'r ardal deneuaf ei phoblogaeth ond un yng Nghymru.

Yr ysbytai mwyaf o fewn y bwrdd iechyd yw Ysbyty Bronglais, Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Llwynhelyg. Mae'r bwrdd iechyd yn rhedeg 12 o ysbytai eraill llai. Ysbyty Bronglais yw'r unig ysbyty aciwt sy'n gwasanaethu poblogaeth canolbarth Cymru.

Cynigir gwasanaethau mamolaeth i bob un o'r cleifion a'u teuluoedd sy'n byw o fewn ffin ddaearyddol y bwrdd iechyd. Mae'r gwasanaethau mamolaeth hefyd yn darparu gofal i gleifion sy'n dewis rhoi genedigaeth yng nghyfleusterau'r bwrdd iechyd sy'n byw y tu allan i'r ffin ddaearyddol. Mae tua 3,100 o enedigaethau yn y bwrdd iechyd bob blwyddyn ar gyfartaledd, gyda thua 450 o'r rhain yn Ysbyty Bronglais.

Ymhlith y dewisiadau sydd ar gael yn y bwrdd iechyd o ran man geni mae geni yn y cartref, uned bydwreigiaeth annibynnol, gofal a arweinir gan fydwragedd mewn uned bydwreigiaeth ac uned obstetreg.

Mae Ysbyty Bronglais yn cynnwys uned beichiogrwydd risg isel a arweinir gan wasanaeth obstetreg gyda chyfleuster sefydlogi i fabanod newydd-anedig<sup>2</sup>.

Ceir uned a arweinir gan fydwragedd yn Ysbyty Bronglais hefyd.

---

<sup>2</sup> Defnyddir uned sefydlogi ar gyfer babanod y mae angen gofal dwys byrdymor a sefydlogi arnynt cyn cael eu trosglwyddo i uned gofal babanod.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd y cleifion yn gadarnhaol am eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth, ac roeddent o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a gawsant yn ystod eu harhosiad yn yr uned famolaeth yn ardderchog.

Gwelsom y staff yn trin y cleifion â chynhesrwydd, parch a chwarteisi bob amser.

Nodwyd gennym y byddai'n well symud ystafell profedigaeth yr uned oddi wrth ystafelloedd y cleifion eraill yng nghanol y ward er mwyn cefnogi preifatrwydd ac urddas y claf.

Nid oedd cyngor ar roi'r gorau i smygu ar gael yn hawdd i gleifion.

Gwnaethom gynghori'r bwrdd iechyd y dylid ystyried y wybodaeth yn y daflen penderfynu ar fan geni er mwyn sicrhau bod cleifion yn deall y gwasanaethau sydd ar gael yn yr uned yn llawn.

Gwnaethom argymhell gwelliannau i'r systemau er mwyn ceisio adborth gan y cleifion a'u teuluoedd.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, teuluoedd a gofalwyr er mwyn cael eu barn ar safon y gofal a ddarperir i gleifion. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â rhai cleifion yn ystod yr arolygiad.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a gafodd yn ystod ei arhosiad yn yr uned famolaeth yn ardderchog. Roedd pob claf y gwnaethom siarad ag ef yn canu clodydd y staff am y gofal a'r sylw a roddwyd ganddynt. Roedd rhai o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Daeth fy ngŵr a'm dau blentyn yma neithiwr ac roedd y staff yn hyfryd gyda nhw. Nid oes dim byd yn ormod o drafferth i'r staff.”*



*“Rwy'n cael rhywfaint o drafferth i fwydo ar y fron, ond arhosodd y fydwraig am amser hir neithiwr a heddiw er mwyn fy helpu i fwydo ar y fron.”*

*“Rwyf wedi galw arnyn nhw yn ystod y nos am gymorth ac maent wedi ymateb ac wedi fy helpu bob tro. Rwyf wedi'i chael hi'n anodd bwydo ar y fron yn y gorffennol.”*

## **Cadw'n iach**

Nid oedd unrhyw wybodaeth am roi'r gorau i smygu i'w gweld ar yr hysbysfyrddau ar y ward. Byddai'r wybodaeth hon yn hybu iechyd y cleifion yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl hynny. Roedd taflenni ar roi'r gorau i smygu ar gael yn yr ystafell ymwelwyr y tu allan i'r ward; fodd bynnag, roeddent o'r golwg ac nid oedd yn hawdd cael gafael arnynt. Gwelsom fod cyngor ar roi'r gorau i smygu yn cael ei roi yn ystod apwyntiadau cynenedigol yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom.

Gwelsom bosteri dwyieithog yn yr uned a oedd yn dangos manylion cyswllt grwpiau cymorth ar gyfer bwydo ar y fron mewn ardaloedd lleol. Gwelsom hefyd amrywiaeth o wybodaeth a oedd yn cynnwys dosbarthiadau cadw'n heini fel ioga, cwnsela, a grwpiau i rieni sengl.

Gwelsom lechen ar y wal yn datgan bod yr uned wedi cael ei hachredu gan UNICEF<sup>3</sup> ym mis Tachwedd 2018 am fod yn gyfeillgar i fabanod. Caiff yr achrediad ei adolygu bob tair blynedd, sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth yr uned â hyn.

---

<sup>3</sup> <https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/> – Mae'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod yn trawsnewid gofal iechyd i fabanod, eu mamau a theluoedd yn y DU, fel rhan o bartneriaeth fyd-eang ehangach rhwng Sefydliad Iechyd y Byd ac Unicef.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am roi'r gorau i smygu ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r uned.

### **Gofal ag urddas**

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn ymddwyn yn dosturiol, yn garedig ac yn gyfeillgar tuag at y cleifion a'u teuluoedd. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â chynhesrwydd, parch a chwarteisi bob amser. Roedd pob aelod o'r staff i'w weld yn ymroddedig ac yn awyddus i roi'r gofal gorau posibl i'w gleifion.

Dyweddodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod y staff yn ofalgar iawn. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrando arnyn nhw a'u ffrindiau a'u teuluoedd. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno bod y staff yn eu cyfarch gan ddefnyddio eu henw dewisol.

Gwelwyd y staff yn darparu gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a phreifat. Gwelsom fod y drysau a'r llenni'n cael eu cau er mwyn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas yn cael eu cynnal.

Roedd ystafell ar gael yn yr uned a fyddai'n cael ei defnyddio fel ystafell profedigaeth pe bai baban yn marw yn ystod genedigaeth<sup>4</sup> neu pe bai marw-enedigaeth. Gwelsom fod yr ystafell hon yn cynnig amgylchedd addas i'r cleifion a'u teuluoedd. Fodd bynnag, roeddem o'r farn y byddai'n well symud ystafell profedigaeth yr uned i ffwrdd oddi wrth ystafelloedd y cleifion eraill yng nghanol y ward er mwyn cefnogi preifatrwydd ac urddas.

Dyweddwyd wrthym fod gan y bwrdd iechyd fydwraig sy'n arwain ar brofedigaeth, ond ni fu modd i ni siarad â'r unigolyn hwn yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, gwnaethom siarad â bydwraig a oedd yn cefnogi'r fydwraig sy'n arwain ar brofedigaeth. Roedd yn gweithio yn yr uned ac wedi mynychu hyfforddiant

---

<sup>4</sup> marwolaeth baban ar ôl i'r cyfnod esgor ddechrau ond cyn iddo gael ei eni

ychwanegol a oedd yn benodol i'w rôl o gefnogi menywod y mae eu babanod wedi marw yn ystod yr enedigaeth neu fenywod sydd wedi dioddef marw-enedigaeth. Gwelsom fod y fydwraig yn ymroddedig iawn i'w rôl a'i bod yn frwd dros wella gofal i gleifion. Dywedodd wrthym ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei chefnogi'n dda yn ei gwaith, a hynny gan gydweithwyr a'r rheolwyr.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael cymorth yn ymwneud â'r posibilrwydd y byddent yn teimlo'n emosiynol ar ôl yr enedigaeth.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried lleoliad yr ystafell profedigaeth ar y ward er mwyn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y cleifion â'u partneriaid/gofalwyr yn cael eu cynnal.

### Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod cyfarwyddiadau i'r uned famolaeth yn cael eu harddangos yn glir ym mhob rhan o'r ysbyty. O ganlyniad, roedd yn hawdd i bobl ddod o hyd i'r lle priodol i dderbyn gofal.

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth yn cael ei harddangos ar gyfer y cleifion. Roedd yr uned yn cynhyrchu cylchlythyr misol dwyieithog i gleifion a oedd yn cynnwys manylion nifer y babanod a anwyd, eu pwysau a'u rhyw. Roedd copïau ohono wedi'u dosbarthu o gwmpas yr uned a gwelwyd bod hyn yn ffordd gadarnhaol o gyfleu gwybodaeth i'r cleifion.

Roedd manylion staffio'r uned wedi'u harddangos ger corlan y nyrsys ar y ward. Roedd hyn yn cynnwys enwau'r staff a thiwnigau lliwiau penodol wrth ochr pob aelod o'r staff a oedd yn adlewyrchu eu dynodiadau. Roedd hyn yn ddefnyddiol i'r cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr wrth geisio adnabod pwy oedd ar ddyletswydd ac yn gofalu amdanynt.

Roedd pob claf yn cael pecyn gwybodaeth wrth adael yr uned. Gwelsom fod y pecyn yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion a oedd yn cynnwys cyngor ar fwydo ar y fron a bwydo â fformiwla, sut i gofrestru'r enedigaeth, ymarferion y cyhyrau pelfig ac atal cenhedlu.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu yn y bwrdd iechyd a sut y gallent gael gafael ar y rhain. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael cynnig yr opsiwn o gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith.

Roedd pob claf yn gadarnhaol ynghylch y rhyngweithio â'r staff yn ystod ei gyfnod yn yr ysbyty. Roedd pawb a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff wedi esbonio'r opsiynau geni ac unrhyw risgiau a oedd yn gysylltiedig â'u beichiogrwydd a'r cymorth a gynigiwyd iddynt.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi cael dewis ble i gael eu baban. Dywedodd pob un o'r menywod y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael dewis ble i gael eu baban, gan gynnwys genedigaeth yn y cartref.

Gwelsom fod y staff yn cynnal preifatrwydd y cleifion wrth rannu gwybodaeth yn yr uned. Roedd pob claf y gwnaethom siarad ag ef yn ei ystafell breifat ei hun yn yr uned. Roedd hyn yn golygu y gallai gyfleu gwybodaeth sensitif i'w deulu a'r staff yn breifat heb fod neb yn ei glywed ar ddamwain.

Roedd tudalen cyfryngau cymdeithasol Facebook wedi cael ei chreu i roi gwybodaeth i gleifion yn electronig. Roedd hyn yn cynnig cymorth i fenywod beichiog a mamau newydd. Hefyd, dywedodd y staff wrthym fod y grŵp cydgysylltu mamolaeth wedi cael ei adsefydlu er mwyn nodi'r hyn y mae cleifion lleol ei eisiau gan wasanaethau mamolaeth, a'r hyn sydd ei angen arnynt, a helpu i ddatblygu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny.

Gwelsom fod y staff ar y wardiau'n cwrdd ddwywaith y dydd, ar adegau trosglwyddo sifftiau. Roedd trosglwyddiadau bydwreigiaeth a throsglwyddiadau meddygol yn cael eu cynnal ar wahân am nad oedd y sifftiau'n dilyn yr un patrwm gwaith. Bu modd i ni arsylwi ar drosglwyddiad bydwreigiaeth a throsglwyddiad meddygol, a gwelsom gyfathrebu effeithiol wrth drafod anghenion a chynlluniau'r cleifion gyda'r bwriad o gynnal parhad gofal. Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei chofnodi ar daflenni trosglwyddo, er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth berthnasol ddiweddaraf.

Roedd gan yr uned fwrdd cipolwg ar statws cleifion, a oedd yn adnodd da i gyfathrebu â'r staff ym mhob rhan o'r uned. Roedd y rhain yn cael eu cadw allan o olwg y cleifion a'r ymwelwyr er mwyn diogelu cyfrinachedd y cleifion.

Gwnaethom ddarllen taflen ar benderfynu ar fan geni a oedd yn rhoi gwybodaeth i gleifion a'u partneriaid am gynllunio ble i roi genedigaeth o fewn ardal y bwrdd iechyd. Roedd y daflen yn darparu manylion am y gwasanaethau sydd ar gael yn yr uned. Roeddem o'r farn y gellid gwneud geiriad y daflen yn gliriach wrth egluro'r term 'uned sefydlogi i fabanod newydd-anedig'. Roeddem o'r farn y gallai'r geiriad presennol fod yn gamarweiniol ac y gallai arwain cleifion i gredu bod cyfleusterau Uned Gofal Arbennig Babanod ar gael yn yr uned. Byddai eglurhad cliriach, heb fod mewn termau meddygol, yn sicrhau bod gan gleifion ddealltwriaeth lawn o'r gwasanaethau sydd ar gael ac yn eu galluogi i wneud

dewis mwy deallus am y man geni. Gwnaethom gynghori y dylai'r bwrdd iechyd ystyried geiriad y daflen ar benderfynu ar fan geni.

Pe bai gan glaf ofynion arbennig, er enghraifft bod angen dolen sain neu ddeunyddiau braille arno, dywedwyd wrthym y byddai'r fydwraig yn rhoi gwybod i'r uned cyn i'r claf gael ei dderbyn ac y byddai trefniadau addas yn cael eu gwneud.

## **Gofal amserol**

Dyweddodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn gymwynasgar iawn ac y byddent yn diwallu eu hanghenion mewn ffordd amserol. Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddent yn gwneud eu gorau i sicrhau bod y cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd er mwyn diwallu eu hanghenion personol, o ran eu hanghenion maeth a chysur. Gwelwyd hyn yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym hefyd. Gwelsom hefyd fod clychau galw yn hygyrch iawn ac yn cael eu hateb mewn ffordd amserol.

Gwelsom fod arsylwadau ar y cleifion yn cael eu cofnodi ar siart a gydnabyddir yn genedlaethol er mwyn nodi'r cleifion a allai fynd yn sâl neu ddatblygu sepsis. Roedd canllaw priodol ar sepsis ar waith a dywedwyd wrthym fod pob bydwraig ac obstetrydd yn cael hyfforddiant ar sepsis bob blwyddyn.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwelsom ei bod yn hawdd i bawb ddefnyddio'r cyfleusterau ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom fod y coridorau wedi'u goleuo'n dda ac nad oeddent yn cynnwys unrhyw beryglon baglu, a bod canllawiau wedi'u gosod ar hyd y wal ar y ddwy ochr.

Roedd llinell iaith ar gael ar gyfer y cleifion hynny nad oedd Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a oedd yn golygu eu bod yn gallu derbyn gofal a fyddai'n briodol i'w hanghenion.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion fod credoau personol a dewisiadau crefyddol y cleifion yn cael eu cofnodi yn ystod apwyntiadau cynenedigol. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod y credoau a'r dewisiadau hynny'n cael eu parchu yn ystod eu gofal beichiogrwydd, esgor ac ôl-enedigol. Hefyd, gwelsom fod y cynlluniau gofal yn hybu annibyniaeth y bobl yn seiliedig ar asesiad o'u galluoedd.

## Hawliau pobl

Gwelsom fod teuluoedd/gofalwyr yn gallu rhoi cymorth i gleifion a chwarae rhan yn eu gofal yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn cael gwybod am ddewisiadau'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod modd i ymwelwyr ddod i'r uned rhwng 2.00pm a 4.00pm a rhwng 6.00pm ac 8.00pm, ond bod croeso i bartneriaid a brodyr a chwiorydd ymweld ar unrhyw adeg o'r dydd. Roedd ystafell gyfarfod y tu allan i fynedfa'r uned lle gallai' cleifion gyfarfod â theulu a ffrindiau i ffwrdd o'r uned pe bai angen.

Dwedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod eu partneriaid wedi cael aros yn yr uned am gymaint o amser ag yr hoffent. Dywedodd un partner ei fod wedi aros gyda'r wraig drwy'r nos ac wedi cysgu yn y gadair freichiau wrth ymyl y gwely, gan fod ganddi ei hystafell ei hun. Dywedwyd wrthym hefyd y gallai partneriaid geni aros gyda'r claf yn ystod y cyfnod esgor. Dywedodd y staff wrthym fod ystafell ddynodedig â gwely dwbl ar gael, fel bod modd i bartneriaid aros pe bai angen.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron fod oriau ymweld yr ysbyty'n golygu y bu modd i bartner neu rywun arall sy'n agos atynt aros gyda nhw am gymaint o amser ag yr hoffent. Cadarnhaodd tua hanner yr ymatebwyr eu bod wedi aros am fwy na 24 awr ar ôl rhoi genedigaeth, a dywedodd y gweddill eu bod wedi aros rhwng 12 a 24 awr.

Roedd yr ysbyty'n darparu gwasanaeth caplaniaeth ac roedd ganddo gapel ysbyty. Dywedwyd wrthym hefyd am drefniadau i alluogi cleifion o grefyddau gwahanol i ddefnyddio ystafell weddiö er mwyn diwallu eu hanghenion ysbrydol.

## Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod adborth yn cael ei geisio gan y cleifion. Roedd cerdyn gwybodaeth wedi'i gynnwys yn y pecyn rhyddhau a roddwyd i bob claf, a oedd yn gofyn am sylwadau am y gofal a'r driniaeth a gafwyd. Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei harddangos ar ddesg y dderbynfa ac yn yr ystafell gyfarfod y tu allan i'r uned, yn dweud wrth gleifion a'u partneriaid neu deuluoedd sut i roi adborth am eu gofal. Yn ôl y staff, pe bai aelod o'r staff yn cael ei enwi yn yr adborth, byddai un o'r rheolwyr yn rhoi gwybod iddo.

Dywedodd pob un o'r staff a gwblhaodd holiadur fod adborth ar brofiad cleifion (e.e. arolygon cleifion) yn cael ei gasglu, ond dim ond tua hanner ohonynt a ddywedodd eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion. Gwnaethom gynghori y dylai'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd o sicrhau bod

pob aelod o'r staff yn ymwybodol o adborth gan gleifion. Dywedodd pob ymatebwr fod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn yr uned.

Roedd proses ar waith ar gyfer mynd i'r afael â chwynion anffurfiol, gyda'r nod o'u datrys yn ddi-oed. Dywedwyd wrthym y byddai rheolwr ward yn cysylltu â'r claf i gynnig trafod y mater, ac y byddai hefyd yn hyrwyddo'r llwybr cwyno ffurfiol petai'r cleifion am ei ddilyn. Roedd taflenni i'w gweld yn yr uned a oedd yn rhoi gwybodaeth am y broses gwyno.

Gwelsom daflenni gwybodaeth mewn perthynas â gweithdrefn gwyno Gweithio i Wella'r GIG (Cymru)<sup>5</sup> i gleifion, a oedd yn esbonio'n glir sut i godi unrhyw bryderon a all fod ganddynt. Roedd hyn yn cynnwys manylion am y Cyngor Iechyd Cymuned<sup>6</sup> a allai gynnig gwasanaethau eirioli a chymorth i godi pryder am eu gofal. Roedd gwybodaeth am godi pryderon a chymorth eiriolaeth hefyd ar gael ar wefan y bwrdd iechyd.

Roedd gwybodaeth gan dîm y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) ar gael ar gorlan y nyrsys ar yr uned. Ei rôl yw sicrhau y rhoddir pwyslais ar gael barn am y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir.

---

<sup>5</sup> Mae Gweithio i Wella yn ymwneud â'r prosesau integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt yn y GIG ledled Cymru.

<sup>6</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/hafan>

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwnaethom nodi pryder uniongyrchol yn ystod ein harolygiad. O ganlyniad i hynny, ni chawsom sicrwydd y gellid darparu gofal cleifion yn ddiogel ac yn effeithiol bob amser. Mae hyn am ein bod wedi nodi problem o ran archwilio cyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig.

Mae mesurau diogelwch digonol ar waith i sicrhau bod y babanod yn ddiogel yn yr uned. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid cynnal ymarferion herwydio yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod diogelwch yn cael ei gynnal mewn argyfwng.

Gwnaethom argymhell y dylai'r gwasanaeth ystyried creu cynllun wrth gefn tan fod pob aelod newydd o staff theatr dynodedig yn gwbl fedrus yn ei rôl.

Roedd y gwasanaeth yn cadw at drefniadau priodol o ran gweithdrefnau diogelu ac roedd cronfa ddata diogelu mamolaeth wedi cael ei chyflwyno a oedd yn caniatáu i staff gael gafael ar gofnodion a'u diweddarau.

Gwelsom fod system glanhau gadarn ar waith ar gyfer y pyllau geni.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod yr uned yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, ei bod yn lân, a'i bod wedi'i goleuo'n briodol a'i hawyru'n dda. Roedd yr amgylchedd yn sicrhau naws ymlaciol iawn. Gwelsom fod diogelwch yn cael ei sicrhau ym mhob rhan o'r uned. Fodd bynnag, gwelsom fod yr ystafell eni yn yr uned a arweinir gan fydwragedd yn anniben. Dywedodd y staff wrthym fod y mater hwn wrthi'n cael ei ddatrys gan fod yr ystafell eni yn cael ei symud ac y byddai mwy o le ar gael yn yr amgylchedd newydd.



Gwnaethom ystyried amgylchedd yr uned a nodi bod mesurau digonol ar waith i sicrhau bod y babanod yn ddiogel yn yr uned. Roedd canllaw priodol ar waith ledled y bwrdd iechyd ar gyfer hyrwyddo diogelwch ac atal babanod rhag cael eu herwydio. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod ymarfer herwydio amlddisgyblaethol wedi cael ei gynnal o fewn y 12 mis diwethaf, yn unol â'r canllaw hwnnw. Dylai ymarferion herwydio gael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod diogelwch yn cael ei gynnal mewn argyfwng.

Gwnaethom ystyried diogelwch y menywod sy'n defnyddio'r pwll geni ac ni chawsom sicrwydd bod yr holl staff gofynnol wedi cwblhau'r hyfforddiant ar wagio pwll geni. Cawsom neges anghyson wrth siarad â'r staff, gydag un aelod o'r staff yn dweud nad oedd wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar, ac un arall yn dweud bod yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r staff pan fyddant yn dechrau yn yr uned. Roedd hyn yn golygu bod risg, pe bai claf yn llewygu neu'n mynd yn sâl neu pe bai argyfwng, na fyddai'r staff wedi cael yr hyfforddiant priodol i sicrhau diogelwch y cleifion wrth ddefnyddio'r pwll geni.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau yn yr uned ar gyfer cael gafael ar help a chymorth brys mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf. Gwelsom fod seiniwr brys a chlychau galw ar gael ym mhob ystafell. Gwelsom fod y troli brys, i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol, gan gynnwys diffibriliwr.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Y caiff ymarferion herwydio babanod eu cynnal yn rheolaidd yn unol â'r canllawiau
- Y caiff pob aelod o'r staff hyfforddiant ar wagio pyllau.

#### Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd

Gwnaethom ystyried a oedd asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwysu'n cael eu cwblhau ar gyfer y cleifion pan fo'n briodol. Dywedodd y staff wrthym y bydd bwndel gofal croen yn cynnwys gofal briwiau pwysu'n cael ei gyflwyno yn y dogfennau newydd ar gyfer cofnodion y cleifion, er nad hynny yw'r arfer presennol. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn adran 'cadw cofnodion' yr adroddiad hwn.

## Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod ardaloedd clinigol yr uned yn lân ac yn daclus. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob ardal ac yn cael ei ddefnyddio gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod yr uned yn lân ac yn daclus.

Gwelodd y tîm arolygu fod pob aelod o'r staff yn cynnal y safonau o ran bod yn Noeth o dan y Penelin<sup>7</sup>, a gwelsom ddulliau hylendid dwylo da. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y weithdrefn gywir ar gyfer golchi dwylo. Roedd gel hylendid dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom hefyd dystiolaeth i ddangos bod archwiliadau hylendid dwylo rheolaidd yn cael eu cynnal.

Gwelsom fod rhagofalon rheoli heintiau safonol yn cael eu dilyn. Dywedwyd wrthym fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan y bwrdd iechyd yn ystod yr wythnos cyn yr arolygiad, ond nid oedd yr uned wedi cael y canlyniadau na'r canfyddiadau hynny eto. Gwelsom lefel uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Roedd ystafelloedd en-suite ar gael at ddefnydd y cleifion pe bai angen gofal nyrsio ataliol<sup>8</sup>, er mwyn helpu i atal heintiau rhag cael eu trosglwyddo i'r cleifion eraill.

Gwnaethom adolygu polisi glanhau'r bwrdd iechyd ar gyfer y pyllau geni. Cawsom sicrwydd bod y polisi'n gadarn, a fyddai'n sicrhau bod y pyllau'n cael eu glanhau'n briodol ac yn ddiogel i'w defnyddio.

---

<sup>7</sup> Yr arfer gorau yw bod y staff sy'n ymwneud â gofal y cleifion yn uniongyrchol yn noeth o dan y penelin. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad â llewys byr, peidio â gwisgo gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), watshis, paent ewinedd nac ewinedd ffug.

<sup>8</sup> Ffordd o atal heintiau rhag cael eu trosglwyddo o un unigolyn i'r llall mewn ysbyty

## Maeth a hydradu

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom edrych ar y ffordd roedd anghenion maeth y cleifion yn cael eu diwallu yn ystod y dydd a'r nos.

Dyweddodd y staff wrthym fod cleifion yn cael dewis o fwydydd poeth neu oer bob sydd, a'u bod yn cael eu hannog i archebu'r ddau er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o fwyd. Roedd cyfleusterau hefyd ar gael i'r cleifion a'u partneriaid/gofalwyr i wneud bwyd a diodydd y tu allan i oriau craidd, a oedd yn golygu bod modd diwallu anghenion maeth drwy gydol y dydd a'r nos. Roedd diodydd poeth ac oer ar gael hefyd. Gwelsom fod gan bob claf jwg o ddŵr o fewn cyrraedd hawdd a oedd yn cael ei lenwi yn ôl yr angen. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent wedi'i gael.

Dywedwyd wrthym fod opsiynau ar gael i gleifion â gofynion deietegol arbennig fel alergeddau, anoddefiadau neu ofynion crefyddol neu ddiwylliannol.

Yng nghofnodion gofal y cleifion a adolygwyd gennym, gwelsom fod gofynion y cleifion o ran maeth a hylifau yn cael eu dogfennu'n dda. Hefyd, gwelsom dystiolaeth yn yr uned i ddangos bod hylifau mewnwythiennol<sup>9</sup> cleifion yn cael eu monitro a'u cofnodi ar siartiau cydbwysedd hylif Cymru Gyfan.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau yn yr uned. Gwelsom fod trefniadau addas ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom botel waed a chebl cod ThermoTrace (cebl a ddefnyddir ar gyfarpar yn yr uned sefydlogi) yn yr uned a oedd wedi darfod. Cafodd hyn ei uwchgyfeirio at uwch-aelodau o'r staff a chafodd yr eitemau eu tynnu oddi yno ar unwaith. Cawsom hefyd sicrwydd bod y staff wedi cael eu hatgoffa am bwysigrwydd archwilio offer mewn ffordd gyson.

Roedd tymheredd yr oergelloedd storio meddyginiaeth yn cael ei archwilio'n ddyddiol, ond nid oedd y tymereddau uchaf ac isaf ar gyfer storio'r meddyginiaethau wedi'u nodi ar yr oergelloedd. Trafodwyd hyn â'r staff a chafodd hysbysiadau yn nodi'r tymereddau uchaf ac isaf eu harddangos ar yr oergelloedd

---

<sup>9</sup> Ffordd o roi hylif yn uniongyrchol i mewn i wythïen

ar unwaith. Byddai hyn yn helpu'r staff i wybod yn hawdd a oedd meddyginiaeth yn cael ei storio ar dymheredd priodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddyginiaeth a gwelsom eu bod wedi cael eu cwblhau'n briodol. Roedd cymorth fferyllol ar gael i'r uned ac roedd modd cael gafael ar feddyginiaeth y tu allan i oriau yn yr adran achosion brys.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei archwilio'n rheolaidd o fewn terfynau amser priodol er mwyn sicrhau ei fod o fewn ei ddyddiad defnyddio ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Mae gan y bwrdd iechyd bolisi a gweithdrefnau ar waith i nodi, hybu a diogelu lles plant ac oedolion sy'n wynebu risg neu'n agored i niwed. Mae gan y gwasanaeth fydwraig ddiogelu arweiniol benodedig ar gyfer y bwrdd iechyd, a fyddai'n rhoi cymorth a hyfforddiant i'r staff.

Mae hyfforddiant diogelu yn orfodol i bob bydwraig yn yr uned a gwelsom fod y gyfradd cydymffurfio yn uchel. Gwelsom fod cronfa ddata diogelu mamolaeth wedi cael ei chyflwyno'n ddiweddar, a fydd yn galluogi pob aelod o'r staff i gael gafael ar gofnodion yn hawdd a diweddarau'r cofnodion ar gyfer oedolion a phlant agored i niwed lle bo angen.

Gwnaethom fwrw golwg dros sampl o nodiadau meddygol cynenedigol a gwelsom fod materion diogelu wedi cael eu nodi a'u huwchygyfeirio'n briodol. Cawsom sicrwydd bod gweithdrefnau priodol ar waith i roi gwybod i'r staff am bryderon diogelu mewn perthynas â chleifion sy'n cael eu derbyn i'r uned, er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu mewn modd priodol.

### Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer archwilio cyfarpar brys ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom nad oedd yr archwiliadau o'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio mewn argyfwng gyda chlaf yn ddigonol, am nad oedd cofnod eu bod yn cael eu cynnal bob dydd. Nodwyd hyn gennym mew perthynas â chyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig a chyfarpar dadebru brys y tu allan i'r uned sefydlogi ar y ward esgor a'r tu allan i ardal y theatr llawdriniaethau.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Ceir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fydwragedd a staff meddygol yn arfer gofal yn seiliedig ar dystiolaeth yn unol â chanllawiau lleol a chenedlaethol, yr oeddem yn eu hystyried yn arferion gorau.

Ystyriodd y tîm arolygu a oedd tîm theatr adran 24 awr y dydd ar gael pe bai argyfwng y tu allan i oriau, gan gynnwys toriadau cesaraidd y tu allan i oriau. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd staff theatr ar y safle rhwng 9:00pm a 9:00am, ond roeddent ar alwad ac yn gallu cyrraedd yr ysbyty o fewn 30 munud pe bai argyfwng. Dywedodd y staff wrthym y byddai tîm theatr 24 awr y dydd ar gael o fis Tachwedd 2019. Dywedwyd wrthym fod staff ychwanegol wedi cael eu penodi i'r swyddi gwag ar gyfer staff y tu allan i oriau. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan y staff am y byddai cyfnod trosiannol pan fyddai'r staff newydd yn cael eu hyfforddi ac y byddai angen amser arnynt i ennill profiad er mwyn dod yn gwbl fedrus yn eu rolau. Roeddem o'r farn bod hyn yn risg bosibl i'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion, a gwnaethom argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried rhoi cynllun wrth gefn ar waith yn ystod y cyfnod trosiannol.

Gwnaethom edrych ar y broses atgyfeirio ar gyfer cleifion mamolaeth sy'n mynychu adran achosion brys yr ysbyty. Roeddem o'r farn y gallai geiriad y broses atgyfeirio gael ei gamddehongli gan staff yr adran achosion brys, a allai olygu na chaiff pob claf mamolaeth a ddaw i'r adran achosion brys ei weld gan obstetrydd neu fydwraig. Argymhellwn y dylid adolygu geiriad y llwybr er mwyn sicrhau y caiff gofal diogel ac effeithiol ei ddarparu i gleifion mamolaeth gan y staff meddygol priodol.

Gwelsom fod proses uwchgyfeirio mamolaeth ar waith a bod aciwtedd yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n ddyddiol er mwyn sicrhau bod lefelau staffio'n cael eu monitro. Byddai hyn yn sicrhau bod modd i wasanaethau gael eu cynnal yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r polisi uwchgyfeirio a'r camau i'w cymryd.

Ystyriodd y tîm arolygu adroddiadau ar sganiau uwchsain<sup>10</sup>. Gwnaethom nodi bod y gosodiad awtomatig yn nodi'n anghywir fod y baban mewn safle ffolennol<sup>11</sup>. Roeddem o'r farn bod hyn yn peri risg i'r gallu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol gan fod yr adroddiadau yn anghywir, oni bai bod y gosodiad awtomatig a oedd yn nodi bod y baban mewn safle ffolennol yn cael ei newid â llaw. Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith ag uwch-aelodau o'r staff a chawsom sicrwydd eu bod wedi rhoi sylw i'r mater ar unwaith. Roedd yr holl staff perthnasol wedi cael eu hatgoffa am bwysigrwydd ystyried y gosodiad awtomatig a'r posibilrwydd o roi adroddiad anghywir, cyn cyflwyno adroddiad ar y sgan. Roedd yn galonogol gweld bod y staff wedi ymateb yn gyflym i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Gwnaethom hefyd ystyried adroddiadau ar sganiau sgrinio yn y tymor cyntaf a gwelsom anghysondebau yn ansawdd yr adroddiadau. Roedd hyn yn cynnwys peidio â chofnodi brasamcan o bwysau'r ffetws (EFW) a methiant i edrych ar y galon. Dywedodd y staff wrthym fod obstetryddion yn dibynnu ar adroddiadau sonograffwyr<sup>12</sup> ar ddelweddau obstetreg er mwyn llywio'u penderfyniadau. Argymhellwn y dylid cyflwyno proses archwilio drylwyr o adroddiadau ar sganiau tymor cyntaf er mwyn sicrhau adroddiadau cywir a chyson, gyda'r bwrdd iechyd yn goruchwyllo hyn.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod bydwaig wedi aros gyda nhw yn ystod y cyfnod esgor a bod y feddyginiaeth lleddfdu poen a gawsant yn ystod y cyfnod esgor yn ddigonol. Hefyd, gwnaethom nodi yng nghofnodion y cleifion a welsom fod y feddyginiaeth lleddfdu poen wedi'i rhoi mewn modd amserol.

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur, pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Dywedodd y

---

<sup>10</sup> Mae sgan uwchsain yn weithdrefn sy'n defnyddio tonnau sain amleddau uchel a gaiff eu trosglwyddo drwy'r abdomen, a gellid ei ddefnyddio yn ystod beichiogrwydd i ddangos delweddau o'r baban yn y groth.

<sup>11</sup> Pan fydd y baban yn y groth â'i draed neu ei ben ôl yn wynebu am i lawr ar gamau diweddarach y beichiogrwydd. Caiff babanod yn y safle ffolennol eu geni drwy doriad cesaraidd yn aml am fod hyn yn cael ei ystyried yn ddull mwy diogel.

<sup>12</sup> Mae sonograffydd yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n defnyddio cyfarpar delweddu arbennig i gynnal sganiau uwchsain.

rhan fwyaf o'r staff wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am arferion clinigol anniogel, a'u bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Ar hyn o bryd, mae nyrs iechyd meddwl amenedigol yn helpu i ddarparu cymorth ar gyfer iechyd meddwl amenedigol. Dywedwyd wrthym fod mesurau hefyd ar waith i recriwtio bydwaig iechyd meddwl amenedigol er budd unedau mamolaeth ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Byddai hyn yn sicrhau bod cymorth iechyd meddwl ar gael i'r cleifion yn ystod beichiogrwydd, y cyfnod esgor, genedigaeth a'r cyfnod ôl-enedigol. Gwnaethom edrych ar daflen a gynhyrchir gan y gwasanaeth iechyd meddwl amenedigol a gweld ei bod yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth i fenywod sy'n cynnwys manylion y gwasanaethau sydd ar gael a chyfeirio at wasanaethau cymorth eraill.

Gwelsom fod y fydwraig ymgynghorol wedi datblygu mentrau da, a bod clinigau dewisiadau geni wedi cael eu cyflwyno. Roedd y rhain yn rhoi cyfle i fenywod ystyried eu dewisiadau geni ac yn rhoi gwybodaeth wedi'i theilwra iddynt mewn ffordd gytbwys a dealladwy.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei rheoli a'i storio'n ddiogel ym mhob rhan o'r uned er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion ac atal mynediad anawdurdodedig. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw mewn ystafell yn yr uned nad oedd modd mynd i mewn iddi heb gerdyn sweipio.

Roedd y fewnrwyd yn llawn gwybodaeth, ac yn cynnwys amrywiaeth o bolisïau a chanllawiau clinigol yn ymwneud â bydwreigiaeth a materion meddygol i'r staff. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd y wybodaeth hon i gyd yn gyfredol a bod angen ei hadolygu. Gwnaethom siarad â'r uwch-reolwyr a ddywedodd wrthym fod yr holl bolisïau a chanllawiau wrthi'n cael eu hadolygu ac y byddai'r broses wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019.

### **Cadw cofnodion**

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion y cleifion yn yr uned. Yn gyffredinol, gwelsom fod cofnodion y cleifion wedi cael eu cadw'n dda; fodd bynnag, roeddent yn anhrefnus ac yn anodd eu defnyddio.

Gwelsom fod angen gwella a sicrhau cysondeb o ran safon y cofnodion a'r ddogfennaeth yn y meysydd canlynol:

- Tystiolaeth o brofion carbon monocsid ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn nodi eu bod yn smygu, yn unol â chanllawiau NICE <sup>13</sup>
- Nodiadau llawdriniaeth i gynnwys cofnodi'r amser y cafodd toriad cesaraidd ei gynnal
- Tystiolaeth o drafodaethau manwl am risgiau a manteision wrth ddewis y man geni
- Cysondeb o ran llofnodion a chwblhau rhifau cofrestru'r Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Siartiau GAP/GROW i gael eu cwblhau'n gyson<sup>14</sup>.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno llyfrynnau mamolaeth newydd i gleifion yn ddiweddar, a oedd yn cynnwys llyfrynnau ar wahân ar gyfer cofnodion cleifion mewnol cynenedigol, bwndel gofal croen, ysgogi'r cyfnod esgor a gofal ôl-enedigol. Dylai hyn ei gwneud yn haws dod o hyd i wybodaeth yng nghofnodion y cleifion yn y dyfodol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion y cleifion yn drefnus ac yn adlewyrchu'r gofal a'r safon a ddarperir i'r cleifion yn llawn a'u bod yn cydfynd â safonau cadw cofnodion proffesiynol.

---

<sup>13</sup> <https://www.nice.org.uk/guidance/ph26/chapter/1-Recommendations#effective-interventions>

<sup>14</sup> Dangoswyd bod protocol Asesu GAP/GROWTH (GAP) yn gwella'r broses o ganfod achosion o gyfyngu ar dwf ffetysau (FGR) yn sylweddol. Mae FGR yn un o achosion sylweddol marw-enedigaeth, marwolaeth baban newydd-anedig ac afiachusrwydd amenedigol



## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd y tîm o fydwragedd yn gydlynol ac roedd ganddynt gydberthynas dda â'r uwch-reolwyr.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu.

Caiff cylchlythyr risg mamolaeth ei lunio bob mis, sy'n adnodd cyfathrebu da o ran cyfleu gwybodaeth i staff mewn unedau mamolaeth ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Roedd trefniadau wedi'u gwneud i'r bydwragedd fynychu hyfforddiant ychwanegol ar ofal dwys i fabanod newydd-anedig mewn bwrdd iechyd arall.

Gellid gwneud gwelliannau o ran y rhwydweithio a'r cydweithredu rhwng y staff meddygol yn unedau mamolaeth Bronglais a Glangwili.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y bwrdd iechyd fydwraig arweiniol benodol ar gyfer risg glinigol a llywodraethu. Roedd yn gyfrifol am adolygu digwyddiadau clinigol, ymchwilio iddynt a'u rheoli. Gwelsom fod proses glir a chadarn ar waith ar gyfer rheoli digwyddiadau ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd. Roedd gwybodaeth yn ymwneud â digwyddiadau clinigol, ymchwiliadau a'u canfyddiadau yn cael ei rhannu mewn amrywiaeth o gyfarfodydd. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheoli risg, fforymau ward esgor a chyfarfodydd misol i drafod ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion.

Roedd cylchlythyr risg mamolaeth yn cael ei lunio bob mis, a oedd yn cynnwys canfyddiadau allweddol o'r ymchwiliadau a'r adolygiadau a gynhaliwyd ac yn cyfleu unrhyw themâu a thueddiadau i'r staff. Gwelsom fod hyn yn adnodd

cyfathrebu da i rannu gwybodaeth â'r staff ym mhob un o unedau mamolaeth y bwrdd iechyd, yn ogystal â gwahodd awgrymiadau i'w cynnwys gan y staff. Yn ogystal â hyn, roedd cyfarfodydd rheolwyr a chyfarfodydd bydwragedd band 7 yn cael eu cynnal bob wythnos.

Roedd yr uned yn defnyddio dangosfwrdd mamolaeth, sef adnodd electronig i fonitro perfformiad clinigol eu gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu llywodraethu. Roedd hyn yn golygu bod gweithgareddau clinigol a chanlyniadau'r cleifion yn cael eu goruchwyllo'n dda. Roedd y dangosfwrdd yn darparu gwybodaeth am weithgarwch clinigol ar yr uned, gan gynnwys nifer genedigaethau a'u categori (gweiniol, toriad cesaraidd, â chymorth), nifer y genedigaethau cartref a hefyd ddangosyddion clinigol megis derbyniadau gofal dwys, trallwysïadau gwaed, derbyniadau babanod newydd-anedig ac afiachusrwydd babanod newydd-anedig. Roedd y dangosfwrdd yn cael ei osod yn goch, yn felyn neu'n wyrdd yn dibynnu ar lefel y risg a oedd yn gysylltiedig â'r niferoedd a'r ffigurau. Roedd yn cael ei ddiweddarau bob mis a'i drafod yn fforwm y ward esgor a'r cyfarfodydd ansawdd, diogelwch a phrofiad y cleifion. Roedd gwybodaeth o'r dangosfwrdd hefyd yn cael ei rhannu â'r staff drwy'r cylchlythyr rheoli risg misol.

Gwnaethom siarad â staff meddygol yn yr uned a oedd o'r farn y gellid gwneud gwelliannau o ran y rhwydweithio a'r cydweithredu rhwng y staff meddygol yn unedau mamolaeth Bronglais a Glangwili. Dywedodd y staff hefyd y gellid gwneud gwelliannau o ran cyfleu risgiau ac ymchwilio i ddigwyddiadau, y gellid eu rhannu â'r ddau safle. Gallai hyn arwain at gydberthnasau gweithio agosach rhwng y staff meddygol ar y ddau safle wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion sy'n cael gofal cynenedigol yn ysbyty Bronglais, ond sy'n rhoi genedigaeth i'r baban yn ysbyty Glangwili.

Roedd tua hanner y staff a gwblhaodd holiaduron yn cytuno eu bod yn cael gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau yn yr uned. Dywedodd y mwyafrif o'r staff eu bod yn cael adborth ar newidiadau a wneir mewn ymateb i gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn deg. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau ac nid oedd neb yn anghytuno.

Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r sefydliad yn beio neu'n cosbi'r bobl sy'n rhan o ddigwyddiadau o'r fath.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cynhelir adolygiad o ddigonolrwydd y sianeli cyfathrebu rhwng staff meddygol yn unedau Bronglais a Glangwili, er mwyn gwella cyfathrebu a chydweithredu.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Gwelsom fod y tîm o fydwragedd yn gydlynol a bod ganddynt gydberthynas dda â'r uwch-reolwyr. Roedd y bydwagedd i'w gweld yn hyderus, yn gymwys ac yn siŵr o'u harfer. Gwelsom hefyd dystiolaeth o gydberthnasau gweithio rhagorol, parch a llinellau cyfathrebu da rhwng y meddygon ymgynghorol a'r bydwagedd. Roedd hyn yn dangos bod y tîm yn cydweithio'n dda ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom siarad â staff yn yr uned a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo bod yr uwch-reolwyr yn eu cefnogi bob amser. Dywedodd y staff wrthym eu bod bob amser yn cael cyngor a chymorth gan y rheolwr ar alwad pan fo angen. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur fod eu rheolwr bob amser neu fel arfer yn annog y rhai sy'n gweithio iddynt i weithio fel tîm. Dywedodd y mwyafrif ohonynt fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff bob amser neu fel arfer. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r staff y byddai'n hoffi gweld yr uwch-reolwyr yn yr uned yn amlach. Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod yr uwch-reolwyr yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig a bod y rheolwyr bob amser neu fel arfer yn gweithredu ar adborth gan y staff. Dywedodd hanner yr ymatebwyr fod y rheolwyr bob amser neu fel arfer yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith, a dywedodd un nad ydynt byth yn gwneud hynny.

Gwelsom fod y rotas bydwreigiaeth a meddygol yn cael eu rheoli'n dda yn yr uned. Gwelsom fod proses uwchgyfeirio ar waith ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i uwchgyfeirio materion yn ôl yr angen. Gwelsom hefyd fod lefel absenoldeb salwch meddygol yn isel yn yr uned.

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi penodi gynaeolegydd ymgynghorol ac arweinydd clinigol ar gyfer obstetreg. Er ei fod yn gymharol newydd yn ei swydd, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ei fod wedi dod â brwdfrydedd ac agwedd gadarnhaol i'r uned.

Gwelsom fod dogfennau portffolio hyfforddiant unigol yn cael eu rhoi i'r bydwagedd, a oedd yn dogfennu'r hyfforddiant gorfodol y mae'n ofynnol i

fydwragedd ei gwblhau, yn ogystal â'u cyfeirio at y cyfleoedd dysgu ychwanegol a oedd ar gael iddynt. Mae'r gwasanaeth yn cynnal tri diwrnod astudio gorfodol sy'n ymwneud â mamolaeth yn ystod y flwyddyn. Mae un o'r diwrnodau hyn yn cynnwys Hyfforddiant Obstetrig ac Amlbroffesiynol Ymarferol (PROMPT)<sup>15</sup>, sef digwyddiad hyfforddi amlddisgyblaethol a ddefnyddir i annog gwaith amlddisgyblaethol mewn achosion brys.

Ymhlith y diwrnodau astudio gorfodol eraill roedd hyfforddiant diogelwch tân, diogelu oedolion, triniaeth cynnal bywyd sylfaenol i famau a dadebru babanod newydd-anedig, ymhlith pynciau eraill. Roedd diwrnodau astudio ychwanegol ar gael i'r staff, a oedd yn cynnwys gosod canwlâu, rhoi cyffuriau drwy'r gwythiennau a dosbarth meist'r ar gardiotocograffeg<sup>16</sup> (CTG).

Dangoswyd ffigurau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant gorfodol i ni, a chawsom sicrwydd bod hyfforddiant rheolaidd yn cael ei gynnal. Roedd cydymffurfiaeth yn cael ei monitro'n ganolog drwy gofnod staff electronig. Mae'r staff yn cael negeseuon i roi gwybod iddynt pan fydd eu hyfforddiant yn dod i ben er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni terfynau amser. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod wedi ymgymryd â hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf a oedd wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r staff y byddent yn cael budd o hyfforddiant ychwanegol, yn arbennig hyfforddiant ar fwydo ar y fron. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod hyfforddiant cyffredinol yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol a dywedodd y mwyafrif ohonynt ei fod yn eu helpu i ddarparu profiad gwell i gleifion. Hefyd, gwelsom ei bod yn ofynnol i'r staff gwblhau cyrsiau E-ddysgu gorfodol a oedd yn cynnwys atal a rheoli heintiau a diogelu.

Gwnaethom ystyried a oedd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei ddarparu i fydwagedd wrth ofalu am fabanod yn yr uned sefydlogi cyn iddynt gael eu trosglwyddo i uned gofal arbennig i fabanod neu uned gofal dwys i'r newydd-anedig. Gwnaethom drafod hyn ag uwch-reolwr a chawsom sicrwydd bod y staff eisoes wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol. Roedd trefniadau ar waith i'r

---

<sup>15</sup> PROMPT – Hyfforddiant Obstetrig ac Amlbroffesiynol Ymarferol. Mae'r cwrs yn addysgu sut i ymdrin ag argyfyngau obstetrig.

<sup>16</sup> Dull technegol o gofnodi curiad calon y ffetws a chyfangiadau crothol yn ystod beichiogrwydd

bydwragedd fynychu hyfforddiant ar ofal dwys i fabanod newydd-anedig mewn bwrdd iechyd arall. Gwnaethom adolygu cynnwys yr hyfforddiant, yr oeddem o'r farn ei fod yn gadarn ac yn dangos ymrwymiad i gynnal sgiliau.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwnaethom nodi materion yn ymwneud â'r hyfforddiant ar wagio pyllau geni. Ceir argymhelliad ynglŷn â hyn yn adran 'gofal diogel a chlinigol effeithiol' yr adroddiad.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'i waith yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gafodd adolygiadau fod eu hanghenion dysgu neu ddatblygu yn cael eu nodi, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt wrthym fod eu rheolwr bob amser yn eu cefnogi i ddiwallu'r anghenion hyn.

### 3. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 4. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwn arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			



## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Ysbyty:** Ysbyty Bronglais

**Ward/adran:** Gwasanaethau Mamolaeth

**Dyddiad arolygu:** 21 – 23 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i wneud y canlynol:</p> <p>Sicrhau y caiff y cyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig a'r cyfarpar dadebru brys eu harchwilio bob dydd ac yn unol â'i bolisi.</p>	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Y Fydwraig Arweiniol Weithredol i gae archwiliadau sicrwydd wythnosol gan reolwyr ward Band 7 er mwyn monitro cydymffurfiaeth o ran archwilio cyfarpar.	Pennaeth Bydwreigiaeth	Wedi'i gwblhau
	2.9 Dyfeisiau ac Offer Meddygol a Systemau Diagnostig	Yr Arweinydd Gweithredol/Bydwraig Ymgynghorol o Ysbyty Glangwili i gynnal archwiliad sicrwydd wythnosol er mwyn sicrhau bod gwaith craffu allanol yn cael ei wneud.	Pennaeth Bydwreigiaeth	Wedi'i gwblhau
				Pennaeth Bydwreigiaeth

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Atgoffa'r staff am bwysigrwydd archwilio cyfarpar yn gyson, a'r gofynion o ran hynny, drwy'r briff diogelwch, 'Ffeil Boeth' y ward a'r Cylchlythyr Risg.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

**Enw (priflythrennau): Julie Jenkins**

**Swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth**

**Dyddiad: 28/10/19**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Ysbyty:** Ysbyty Bronglais

**Ward/adran:** Gwasanaethau Mamolaeth

**Dyddiad arolygu:** 21 – 23 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am roi'r gorau i smygu ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r uned.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Arddangos posteri gwybodaeth am roi'r gorau i smygu yn holl ardaloedd y wardiau.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod	31 Ionawr 2020
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried lleoliad yr ystafell profedigaeth ar y ward er mwyn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y cleifion â'u partneriaid/gofalwyr yn cael eu cynnal.	4.1 Gofal ag Urddas	Symud yr ystafell profedigaeth i'r Ystafell a Arweinir gan Fydwragedd sydd wedi'i lleoli ar ben pellaf Ward Gwenllian.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod	31 Ionawr 2020
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y caiff ymarferion herwgydio babanod eu cynnal yn rheolaidd yn unol â'r canllawiau</li> <li>• Y caiff pob aelod o'r staff hyfforddiant ar wagio pyllau.</li> </ul>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Cynnal ymarferion herwgydio babanod ddwywaith y flwyddyn a monitro'r canlyniadau a'u trafod yng nghyfarfod Ansawdd a Diogelwch y Gyfarwyddiaeth.</p> <p>Atgoffa pob aelod o'r staff i fod ar ei wyladwriaeth wrth adael staff, ymwelwyr a chleifion i mewn ac allan o'r ardaloedd clinigol, drwy'r Cylchlythyr Risg Glinigol, y Briff Diogelwch, y daflen drosglwyddo a'r Ffeil Boeth.</p> <p>Trafod â'r hyfforddwr codi a chario gydnabyddiaeth ffurfiol i'r hyfforddiant mewnol gan Gydgylltydd yr Uned a Arweinir gan Fydwagedd, sydd ar Fand 7.</p> <p>Rhannu proses weithredu sefydlog Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sy'n cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer Gofal a Arweinir gan Fydwagedd a Chanllawiau</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod Gwasanaethau</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod Gwasanaethau</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a</p>	<p>31 Ionawr 2020</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Cymru Gyfan ar gyfer Gofal a Arweinir gan Fydwagedd ar enedigaethau dŵr drwy'r Cylchlythyr Risg Glinigol.</p> <p>Sicrhau bod proses weithredu sefydlog Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer genedigaethau dŵr ar gael drwy fewnwyd y Bwrdd Iechyd o dan 'polisiâu a chanllawiau'.</p> <p>Sicrhau bod proses weithredu sefydlog Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer gadael pwll geni ar gael ym mhob ystafell esgor lle y gall menywod roi genedigaeth mewn dŵr.</p> <p>Cynnal ymarferion gwacáu bob mis gyda'r holl staff sy'n gweithio mewn Uned a Arweinir gan Fydwagedd.</p>	<p>Gwasanaethau Menywod</p> <p>Gwasanaethau</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Gwasanaethau</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei archwilio'n rheolaidd o fewn terfynau amser priodol er mwyn sicrhau ei fod o fewn ei ddyddiad defnyddio ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.</p>	<p>2.9 Dyfeisiau Meddygol, Offer a Systemau Diagnostig</p>	<p>Y Fydwraig Arweiniol Weithredol i gael archwiliadau sicrwydd wythnosol gan reolwyr ward Band 7 er mwyn monitro cydymffurfiaeth o ran archwilio cyfarpar.</p> <p>Yr Arweinydd Gweithredol Allanol/Bydwraig Ymgynghorol i gynnal archwiliad sicrwydd wythnosol er mwyn sicrhau bod gwaith craffu allanol yn cael ei wneud.</p> <p>Atgoffa'r staff am bwysigrwydd archwilio cyfarpar yn gyson, a'r gofynion o ran hynny, drwy'r briff diogelwch, 'Ffeil Boeth' y ward a'r Cylchlythyr Risg.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Gwasanaethau</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Gwasanaethau</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Gwasanaethau</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion y cleifion yn drefnus ac yn adlewyrchu'r gofal a'r safon a ddarperir i'r cleifion yn llawn a'u bod yn cyd-fynd â safonau cadw cofnodion proffesiynol.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Atgoffa'r staff am bwysigrwydd cadw cofnodion da drwy'r Cylchlythyr Risg Glinigol.</p> <p>Cynnal archwiliad o safonau cadw cofnodion bob mis fel rhan annatod o'r broses sicrwydd mamolaeth.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Gwasanaethau</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Rhannu canfyddiadau'r archwiliadau â'r staff, naill ai yn unigol neu mewn trafodaethau grŵp drwy'r Goruchwylydd Clinigol i Fydwragedd.	Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod  Gwasanaethau  Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod  Gwasanaethau	Cwblhawyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cynhelir adolygiad o ddigonolrwydd y sianeli cyfathrebu rhwng staff meddygol yn unedau Bronglais a Glangwili, er mwyn gwella cyfathrebu a chydweithredu.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd  7.1 Y Gweithlu	Cynnal cyfarfodydd misol i feddygon ymgynghorol er mwyn trafod achosion clinigol â'r tîm amlddisgyblaethol o'r ddau safle.  Cynnal fforwm Ward Esgor misol, wedi'i hwyluso gan gyfraniadau gan y ddau safle. Caiff presenoldeb ei gofnodi er mwyn sicrhau sgwrs dryloyw am y gwersi a ddysgwyd ar draws y Bwrdd Iechyd.	Obstetregydd Arweiniol   Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod  Gwasanaethau	Cwblhawyd      Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Meddygon Ymgynghorol Obstetreg yn rhan o rota 'Wythnos boeth' (Obstetrydd ymgynghorol yn gweithio 9-5 ar ward Esgor o ddydd Llun i ddydd Gwener ar amserlen dreigl) yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili o fis Ionawr 2020 er mwyn cynnal a gwella sgiliau, cymwyseddau a gweithio mewn partneriaeth.</p> <p>Meddygon Gradd Ganol yn cael cyfle i weithio yn Uned Asesu Beichiogrwydd Cynnar Ysbyty Cyffredinol Glangwili er mwyn cynnal a datblygu cymwyseddau.</p> <p>Y Fydwraig Risg Glinigol i hwyluso digwyddiadau dysgu pen bwrdd mewn cysylltiad ag unrhyw ddigwyddiadau clinigol gyda'r tîm amlddisgyblaethol o'r ddau safle.</p>	<p>Obstetregydd Arweiniol</p> <p>Obstetregydd Arweiniol</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Gwasanaethau</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>31 Ionawr 2020</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.



## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Julie Jenkins**

**Swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth**

**Dyddiad: 20 Rhagfyr 2019**